# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

Mae Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2024 yn fyw! Cliciwch yma i ddarllen y datganiad i'r wasg.

**Mae enwebiadau yn cau ar 02/02/2024**. Mae Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn dathlu'r gweithwyr addysg broffesiynol ac ysbrydoledig ledled Cymru. Mae 10 categori gan gynnwys gwobr newydd 'Ymgysylltiad Dysgwyr yn yr Ysgol/Coleg'. Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n haeddu cydnabyddiaeth?

**Ewch i www.llyw.cymru/gwobrauaddysgu i enwebu.**

DYDDIAD CAU: 02/02/2024

## CYNADLEDDAU

### Gweithdai: Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r 5 hyfedredd mathemategol ar gyfer ymarferwyr 3 i 8 oed, gyda Gareth Metcalfe – I See Maths.

**FFOCWS Y GWEITHDY:**

- Datblygu dealltwriaeth gysyniadol o rif drwy amrywiaeth o ddulliau addysgegol
- Creu heriau mathemategol pwrpasol o fewn y ddarpariaeth
- Datblygu gweithdrefnau i ddatblygu rhesymu mathemategol a datrys problemau.
- Bydd gofyn i athrawon ddychwelyd i weithdy hanner diwrnod - Mehefin 2024. Bydd dyddiadau a lleoliadau yn cael eu rhannu yn ystod Gweithdy 1.

| | |
|---|---|
| 11/04/2024 | Canolfan Fusnes Conwy |
| 12/04/2024 | Holiday Inn, A55 [Chester West] |
| 18/04/2024 | Clwb Pêl-droed, Porthmadog |
| 19/04/2024 | Clwb Rygbi, Bethesda |

MANYLION LLAWN A CHOFRESTRU



## Cynhadledd Dibenion Adborth

**23/02/2024** **Kinmel Manor, Abergele**  **Michael Chiles, Awdur *The Feedback Pendulum*** 

Rydym wedi gwahodd Michael Chiles i Ogledd Cymru - dirprwy bennaeth, addysgwr [3-16 oed] ac awdur *The Feedback Pendulum*.

Bydd Michael yn annerch Cynhadledd ar Ddibenion Adborth i arweinwyr Addysgeg ysgolion [pob sector].

Dyma gyfle gwych i chi gael ysbrydoliaeth yn ystod y dydd drwy wrando ar y brif araith a chael cyfle i edrych ar beth yw dibenion adborth, cynllunio ar gyfer adborth ochr yn ochr ag addysgeg a chynnydd a defnyddio'r adnoddau gorau ar gyfer y deilliant sydd dan sylw.

[Manylion llawn ar gael yma.](#)

YSGOLION MÔN A GWYNEDD »

YSGOLION CONWY A SIR DDINBYCH »

YSGOLION SIR Y FFLINT A WRECSAM »

## Defnydd Effeithiol o Drinolion a Chynrychioladau [Cynradd 8-11]

**08/03/2024 | 9:00-16:00** **Venue Cymru, Llandudno**  **Jonathan Hall** [COFRESTRU](#)

Pan ddefnyddir trinolion a chynrychioliadau yn effeithiol gallant fod yn adnoddau pwerus i ddatblygu meddwl mathemategol a'r pum hyfedredd mathemategol.

Dan arweiniad Jonathan Hall, bydd y gweithdy hwn yn diffinio meddwl mathemategol ac yn dangos pŵer hyn trwy ddefnyddio cynrychioliadau diriaethol, darluniadol a haniaethol - ochr yn ochr ag awgrymiadau wedi'u llunio'n ofalus i ddenu dysgwyr ac ennyn eu diddordeb. Bydd ymarferwyr yn datblygu chwilfrydedd dysgwyr ac yn datblygu ac ymestyn yr awgrymiadau, gan arwain at gyffredinoliadau a dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach o strwythur sylfaenol y fathemateg.

**Bydd y gweithdy drwy gyfrwng y Saesneg.**

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Yr ydym yn falch iawn o gyflwyno ein [Cynnig Dysgu Proffesiynol](#) i chi ar gyfer y flwyddyn addysgol 2023-24. Yma cewch wybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion.

Cadwch olwg ar dudalen [Cynnig Proffesiynol GwE](#) ar ein gwefan. Mae'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd i gynnwys yr holl ddigwyddiadau newydd a gynigir gan GwE.

# CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL RHANBARTHOL ANG: TYMOR 2 A 3 [2024]

Gweler isod cynnig dysgu proffesiynol rhanbarth GwE ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso.
[Mae'r manylion llawn ar gael ar wefan GwE](#). Cliciwch ar y dolenni isod er mwyn cofrestru.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | [Ymddygiad Heriol](#) | 22/02/2024 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| 7 | [Well Being NQT](#) | 23/02/2024 | Oriel Hotel, Llanelwy | Saesneg |
| 8 | [Cymhwysedd Digidol](#) | 21/03/2024 | Plas Menai | Cymraeg |
| 9 | [Digital Competence](#) | 22/03/2024 | Oriel Hotel, Llanelwy | Saesneg |
| 10 | [Asesu Ffurfiannol](#) | 16/04/2024 | Plas Menai | Cymraeg |
| 11 | [Formative Assessment](#) | 17/04/2024 | Oriel Hotel, Llanelwy | Saesneg |

## LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA

### Recriwtio Aseswyr ar gyfer Statws CALU

**[CYNORTHWYWYR ADDYSGU LEFEL UWCH]**

**Oes ganddoch chi statws CALU ac yn gweithio mewn ysgol yn rhanbarth GwE?**

Mae GwE yn chwilio am ymarferwyr â statws CALU, i ymuno gyda'r tîm sydd ynghlwm â'r Rhaglen Asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch.

Fel aseswr, byddwch yn gyfrifol am asesu ymgeiswyr sydd wedi cwblhau'r Rhaglen Darpar CALU, ac sydd yn cael eu hasesu ar gyfer statws CALU.

Am fwy o wybodaeth a manylion ymgeisio, cliciwch yma. **DYDDIAD CAU AR GYFER GWNEUD CAIS: 16/02/2024**

### Diwrnod Datblygu CALU

Cynhelir Diwrnod Datblygu Cenedlaethol ar **11/03/2024** i gymorthyddion addysgu sydd â statws CALU.
Dyma gyfle i weld esiamplau o arfer effeithiol mewn ysgolion ar draws rhanbarth GwE.

Siaradwr gwadd: **Lee Parkinson - Mr P ICT** | Manylion pellach: https://bit.ly/3vL3S0c



### Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, cliciwch yma.

### Rhwydwaith i Gymorthyddion Addysgu

**23/02/2024 | 13:00-13:45** YMUNWCH

Sesiwn anffurfiol dros TEAMS i rannu gwybodaeth ac arfer effeithiol gydag adnoddau digidol.
Gwybodaeth ychwanegol. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Elin Hutchinson.

## PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

### Gwella ein dealltwriaeth o waith ymarferol mewn gwyddoniaeth Gynradd

Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bath Spa a Phrifysgol Manceinion yn chwilio am athrawon yng Nghymru i helpu i wella ein dealltwriaeth o waith ymarferol mewn gwyddoniaeth gynradd mewn ysgolion. Mae'r tîm ymchwil yn cynnal arolwg o ysgolion ledled y DU er mwyn gwneud argymhellion y gellir eu cymhwyso ar draws pob gwlad. Rydym yn croesawu'r holl randdeiliaid gwyddoniaeth cynradd i ymateb i'r arolwg, gan gynnwys athrawon presennol, uwch arweinwyr, arweinwyr datblygiad proffesiynol, sefydliadau STEM ac addysgwyr addysg gychwynnol i athrawon ym mhob un o wledydd y DU. Bydd yr arolwg yn gofyn am eich barn a'ch profiadau ynglŷn â gwaith ymarferol mewn gwyddoniaeth gynradd ac mae dolen i'r holiadur ar gael yma:

Gwaith ymarferol mewn gwyddoniaeth gynradd

### Cyhoeddi gwaith ymchwil newydd gydag ysgolion GwE
### Defnydd ysgolion prif lif ac arbennig o raglenni lles: Arolwg rhanbarthol

Mae'n bleser gan GwE weld bod canlyniadau un o'n prosiectau ymchwil ar y cyd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar yn y *British Educational Research Journal [BERJ]*. Gwnaethpwyd y gwaith hwn gydag ymchwilwyr o Brifysgol Warwick fel rhan o waith GwE ar y cyd â'n partneriaid prifysgol er mwyn ein helpu i ddefnyddio canfyddiadau ymchwil i lywio polisi ac arfer. Darllenwch fwy...

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## Rhwydwaith i holl ymarferwyr y Celfyddydau Mynegiannol



**12/03/2024 | 15:30-16:30** YMUNWCH

Sesiwn anffurfiol dros MS Teams i rannu gwybodaeth ac arfer dda. **Cyfrwng Cymraeg**.

## TAR Cynradd Anghenion Dysgu Ychwanegol ym Mhrifysgol Bangor

**06/02/2024 | 15:30-16:30** **Digwyddiad Arlein** Manylion llawn COFRESTRU

Mae Prifysgol Bangor ar fin agor ceisiadau ar gyfer peilot TAR sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer hyfforddiant athrawon ar gyfer ADY – gan arbenigo mewn niwroamrywiaeth. Mae hyn wedi'i gynllunio i ddiwallu'r anghenion cynyddol o fewn ein hysgolion prif ffrwd ac arbennig, ac mae wedi'i gynllunio ochr yn ochr â phenaethiaid arbennig a phrif ffrwd, uwch arweinwyr a phartneriaid ALl o bob rhan o'r rhanbarth yn ogystal ag arbenigwyr o Fangor. Bydd y cwrs yn cychwyn ym mis Medi 2024 (yn amodol ar achrediad gan CGA) a bydd yn cynnwys opsiwn o leoliad o fewn eu hysgol eu hunain ar gyfer staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas. Hwn fydd llwybr ADY AGA pwrpasol cyntaf Cymru. Mae ceisiadau ar gael trwy UCAS. Mae sesiwn wybodaeth bellach ar-lein ar 06/02/2024 ar ôl ysgol i ddarpar ymgeiswyr ac mae rhagor o wybodaeth yma.

## Digwyddiadau Lansio Adnoddau Technocamps micro:bit - Mawrth 2024

06/03/2024 | 9:00-15:00 Canolfan Fusnes Conwy COFRESTRU

I gefnogi ymgyrch micro:bit - y genhedlaeth nesaf gan y BBC a micro:bit Foundation, mae Technocamps yn cynnal digwyddiadau dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ledled Cymru yn ystod Chwefror a Mawrth. Cefnogir y digwyddiadau hyn gan y BBC, micro:bit Foundation a Hwb gyda'r uchelgais i gefnogi ymarferwyr ledled Cymru i wella'r modd y maent yn cyflwyno Cwricwlwm i Gymru ymhellach gan ddefnyddio micro:bits.
Cliciwch yma am fwy o wybodaeth ac i archebu eich lle.

## Rhwydwaith Arweinwyr Dysgu ac Addysgu Uwchradd

21/02/2024 | 9:15-12:00 Canolfan Fusnes Conwy AGENDA COFRESTRU

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Cynradd 8-11 ***CARFAN NEWYDD***

Bwriad y rhaglen yw rhannu syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu cyfleoedd dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn y maes dysgu gan edrych ar sut y gallwn wreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd er mwyn ehangu'r dysgu.

Mae hon yn rhaglen datblygiad proffesiynol a gynhelir dros 3 diwrnod. **Bydd rhaid i chi fynychu'r 3 diwrnod**.

**DIWRNOD 1:** 29/02/2024 **DIWRNOD 2:** 19/04/2024 **DIWRNOD 3:** 24/05/2024 COFRESTRU

## Cwrs Uwch Gwneud Llun a Siarad

Mae'r Hyfforddiant Uwch 'Gwneud Llun a Siarad' yn benodol ar gyfer aelodau sydd eisoes wedi cwblhau ein hyfforddiant Sylfaen undydd. Yn yr ail gwrs hwn, bydd yr aelodau yn dod i ddeall yn well y broses therapiwtig sydd ynghlwm â 'Gwneud Llun a Siarad', a'r theori tu cefn i'r dechneg. Byddwn yn edrych yn fanylach ar *Ddamcaniaeth Jung* er mwyn gweld y defnydd o archdeipiau a'r patrymau sydd i'w gweld mewn lluniau gan blant, ac yn dysgu hefyd am ddatblygiad a symudiad ar hyd yr echelin Ego-Hunan.

21/02/2024 | 9:00-15:30 Digwyddiad Ar-lein dros Zoom RHAGOR O FANYLION

**Cysylltwch â** CatherineMcNamara@gwegogledd.cymru **am fwy o wybodaeth**

## Gweithdai Dyniaethau i Athrawon a Chymorthyddion sy'n Addysgu'r Oedran 3 i 8 oed

**DATBLYGU DEALLTWRIAETH DDYFNACH O FAES DYSGU A PHROFIAD 'Y DYNIAETHAU'**

Rhannu syniadau ar sut i:

- Gynllunio a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio ac archwilio y byd o'u cwmpas drwy ddisgyblaethau MDaPh 'Y Dyniaethau'.
- Cynllunio profiadau datblygiadol er mwyn sicrhau dilyniant a chynnydd mewn sgiliau ar draws y continwwm o 3 i 8 oed.
- Bydd hyfforddiant i athrawon ar draws 2 sesiwn a bydd disgwyl iddynt fynychu'r ddau weithdy.

Cliciwch ar y dolenni am ragor o fanylion ac i gofrestru: GWEITHDAI CYMORTHYDDION | GWEITHDAI ATHRAWON

# Y GYMRAEG

## Dydd Miwsig Cymru




Bydd Dydd Miwsig Cymru yn digwydd ar **09/02/2024.**

♫♪♫ Dydd Miwsig Cymru | LLYW.CYMRU ♫♪♫

P'un a ydych chi'n hoffi miwsig indi, roc, pync, ffync, gwerin, electronica, hip hop neu unrhyw beth arall, mae miwsig anhygoel yn cael ei greu yn y Gymraeg i chi ei ddarganfod. Mae'r diwrnod yn dathlu pob math o fiwsig Cymraeg.

Ond does dim rhaid i ti aros tan Ddydd Miwsig Cymru i rannu dy gariad at gerddoriaeth Gymraeg neu i ddod o hyd i dy hoff gân newydd, dilyna @Miwsig_ neu chwilia am #Miwsig.

Os am wybod mwy am ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru ewch i wefan AM Cymru

## Gweithdai Ein Llais Ni

**Ydych chi eisiau gwybod mwy am sut gall 'Ein Llais Ni' eich cefnogi i ddatblygu llafaredd Cymraeg yn eich ysgol? [cynradd ac uwchradd]**

Gweithdy yn cyflwyno rhaglen Ein Llais Ni i ysgolion sydd heb fynychu'r gynhadledd a rhwydweithiau yn 2023. Byddwn yn dangos sut mae'r gwaith wedi esblygu ac yn esbonio'r gefnogaeth a'r wefan gysylltiedig sydd ar gael i'w defnyddio am ddim.

Ein Llais Ni

Dewis o 8 lleoliad ar draws y rhanbarth yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2024.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **05/02/2024** | Ysgol Corn Hir | **13:00-14:30** | Swyddfa GwE, Penrallt | **15:30-17:00** |
| **21/02/2024** | Oriel House, Llanelwy | **13:00-14:30** | Venue Cymru, Llandudno | **15:30-17:00** |
| **26/02/2024** | Ysgol Bro Idris, Dolgellau | **13:00-14:30** | Clwb Pêl Droed, Porthmadog | **15:30-17:00** |

## Cewri Cymru: e-sgol

'CEWRI CYMRU' – gwasanaethau digidol ac adnoddau rhad ac am ddim gan e-sgol i ddathlu cewri ein cenedl! Cyfres o sesiynau addysgol sy'n taflu goleuni ar unigolion nodedig sydd wedi manteisio ar eu gallu i siarad Cymraeg.

Bydd e-sgol yn cyflwyno'i phrosiect newydd 'CEWRI CYMRU' sy'n cyd-fynd â rhaglenni Siarter Iaith a Chymraeg Campus ac yn cael ei lansio ar 05/02/2024 yn barod ar gyfer Dydd Miwsig Cymru ar 09/02/2024. Cliciwch ar y fideo am fwy o fanylion.




*Hysbyseb 'Cewri Cymru'*

Bydd y fideos yma yn cael eu darlledu fel 'premieres' ar 05/02/2024 am 9:15, ac ar gael wedi hynny er mwyn i ysgolion eu defnyddio ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw. Cewri Cymru

## Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg

**CWRS UWCH AR GYFER CYMORTHYDDION [EBRILL-GORFFENNAF 2024]**

Ydych chi'n siaradwr eithaf rhugl [Iaith Gyntaf ac Ail Iaith]? Angen mwy o wybodaeth? Cliciwch yma.

## Ydych chi Eisiau Cryfhau eich Cymraeg? [*Gloywi Iaith*]

**Pa lefel ydych chi ei hangen?** Pa lefel ydw i?

**Beth sydd ar gael?** Dewis eang, yn cynnwys cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithlu addysg. Dulliau gwahanol o ddysgu, yn cynnwys hunan-astudio a chyfle i ddysgu yn y gymuned. **Cymraeg Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg**

**Angen mwy o wybodaeth? Cysylltwch â'r awdurdod lleol neu GwE**.

## Carlam Cymru: Lefel Nesa




**TGAU**

Ychwanegwyd **Sesiynau Adolygu TGAU newydd** at y casgliad o Adnoddau yn nhymor yr Hydref 2023 – ewch i **Recordiadau Newydd**!

**UG a Safon Uwch**

Cadwch lygad am Sesiynau Adolygu Uwch Gyfrannol a Safon Uwch newydd o fis Ionawr 2024

Ewch i: **Carlam Cymru - Hafan | e-sgol**

# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

## Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE: **CYNRADD** | **UWCHRADD**



## *Routes Cymru*: Sector Uwchradd

**Llysgenhadon Iaith mewn Ysgolion [PLA] Blwyddyn 7-9: 01/03/2024**

Dewis o wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Bangor neu ar-lein.

Mae cofrestru yn dal ar agor: **Llysgenhadon Iaith mewn Ysgolion [PLA] – Llwybrau at Ieithoedd Cymru**

# IECHYD A LLES

## Cynnig Proffesiynol Iechyd a Lles GwE

**Cliciwch ar y dyddiadau isod er mwyn cadw eich lle ar y cwrs [dolen i Eventbrite]**

| **GWEITHDY IECHYD A LLES [8-11]** | | |
|---|---|---|
| Y Galeri, Caernarfon | **20/02/2024** | 8:45-15:15 |
| Holiday Inn, A55 Chester West | **29/02/2024** | 8:45-15:15 |
| Optic | **14/03/2024** | 8:45-15:15 |

## Bioffilia: Gwyddoniaeth Natur ac Anifeiliaid

06/02/2024 | 9:30-12:30 **Digwyddiad Ar-lein dros Zoom** **RHAGOR O FANYLION**

Mae'r sesiwn wedi'i hanelu at holl staff ysgolion a sefydliadau cymunedol a bydd yn cynnig theori sylfaenol a chymhwysiad ymarferol a fydd yn galluogi staff i ddeall llawer mwy am y tu allan ac am anifeiliaid. Bydd cyfiawnhad gwyddonol y rhai hynny sy'n gwybod ei fod yn gweithio a dealltwriaeth o fyd natur yn ein helpu i gynnal iechyd meddwl da. **COFRESTRU**

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Cliciwch yma i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sydd yn darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol traws-ranbarthol sydd ar gael i holl staff Cymru.

## Tegwch mewn Addysg - Dysgu Proffesiynol

**ADDYSGU A DYSGU I GEFNOGI DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED A DAN ANFANTAIS**

Cliciwch ar y ddolen hon i ddarllen mwy am yr adnoddau a sut allwch chi fynd ati i'w defnyddio yn y dosbarth.

## Cyfle ym Maes Cymell a Mentora

Mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi bod yn datblygu diwylliant Cymell & Mentora trwy Raglen hyfforddiant genedlaethol ers rhai blynyddoedd bellach.

Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol rithiol hon yn cynnwys 6 sesiwn 3½-awr dros gyfnod o 6 wythnos. Trefnir carfan newydd ar gyfer tymor y gwanwyn 2024.

Gweler dolen at wybodaeth bellach a ffurflen gofrestru: Consortia Addysg Cymru - Trosolwg o'r rhaglen Cymell a Mentora Genedlaethol [google.com]

## Cynnig 'Lle i Fyfyrio' i bob Gweithiwr Proffesiynol mewn Addysg

Mae angen ychydig o gymorth llesiant ar bob un ohonom o bryd i'w gilydd, cyfle i stopio, dadlwytho, myfyrio ac adolygu. Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth a chofrestru ar gyfer cynnig cymorth hyfforddiant myfyriol y Consortiwm.

## Mark Burns: *'Teaching to maximise learning'*

Mark Burns: *'Teaching to maximise learning'*, yw'r cyntaf mewn cyfres o bodlediadau gan Dîm Cyflawni Potensial y Consortiwm. I gael rhagor o fanylion ac i fynd at y podlediad, cliciwch ar y ddolen hon.

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Ysgolion Llysgennad Senedd Ewrop

Mae Phil Lof, cyn fyfyriwr yn Ysgol Eirias ym Mae Colwyn ac sydd bellach yn gweithio i Lywodraeth Cymru yn ei swyddfa ym Mrwsel, eisiau rhannu cyfle y mae'n credu a fydd o ddiddordeb i ysgolion yng ngogledd Cymru.

Yn dilyn cyfarfodydd gyda Swyddfa Gyswllt Senedd Ewrop yn Llundain i drafod parhau ymhellach â'r cydweithio rhwng Senedd Ewrop a Chymru, mae Swyddfa Senedd Ewrop yn Llundain wedi mynegi diddordeb mewn cael ysgolion Cymru i gofrestru ar eu rhaglen Ysgolion Llysgennad Senedd Ewrop. Nid oes yr un ysgol yng Nghymru yn rhan o'r rhaglen ar hyn o bryd, ac maent yn awyddus i hyn newid.

Bydd staff a myfyrwyr yn cael tystysgrif ar ôl cwblhau'r rhaglen. Bydd cyfle hefyd i siaradwyr o Swyddfa Gyswllt Senedd Ewrop ymweld â'r ysgol, a chyfle i fynd â myfyrwyr i Lundain i ymweld â'u Swyddfa yn Europe House. Mae'n werth nodi hefyd bod hyn yn rhad ac am ddim i'r ysgol ac i'r myfyrwyr.

Dyma ddolen ble cewch chi ragor o wybodaeth.

## Seminar gan y Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol

**07/02/2024 | 16:00-17:30** **Seminar: Digwyddiad Arlein** https://www.liveeventstream.online/cen-seminars

Edrychodd prosiectau ymchwil y Rhwydwaith Tystiolaeth Cydweithredol, sy'n cynnwys Addysg Uwch a sefydliadau eraill, ar effaith pandemig COVID-19 ar wahanol agweddau ar y system addysg ac ar grwpiau penodol o ddysgwyr.

Fe wnaeth deunaw prosiect hefyd ystyried ffyrdd o liniaru'r effeithiau hynny, yn ogystal â ffyrdd y gall ymarferwyr a dysgwyr gael eu cefnogi'n well wrth symud ymlaen.

Roedd y chweched seminar yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol ac addysg gychwynnol athrawon. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliad i effaith y pandemig ar anghenion dysgu proffesiynol athrawon yng Nghymru, fel rhan o'r fframwaith Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Mae hefyd yn cynnwys gwerthusiad o natur y ddarpariaeth ar-lein ar gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon.

## Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024

Lansiodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 ddydd Mawrth 23 Ionawr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi i fynd i'r afael â thlodi plant fel prif flaenoriaeth. Gweler isod ddolen i'r strategaeth ddiwygiedig. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech dynnu sylw eich ysgolion at y strategaeth. Ceir y strategaeth yn llawn ynghyd â fersiwn hawdd ei deall a fersiwn pobl ifanc trwy ddilyn y **ddolen hon**.

## Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol: Wyneb yn Wyneb



**06/02/2024 | 9:30-15:45** **Venue Cymru, Llandudno** COFRESTRU

Dewch draw i ymuno yn y Sgyrsiau Cenedlaethol wyneb i wyneb hyn am y Cwricwlwm i Gymru:

- I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ganllawiau Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â'r daith a beth mae hyn yn ei olygu i'ch ysgol neu eich lleoliad chi;
- Cyfrannu at y sgwrs genedlaethol am Gynllunio Cwricwlwm a Chynnydd;
- Rhannu eich barn ar gyfleoedd a heriau yn y chwe maes dysgu a phrofiad, er mwyn helpu i lunio polisi ac ymarfer er budd pob dysgwr yng Nghymru; a
- Rhwydweithio gyda chyd-ymarferwyr o bob rhan o Gymru, a sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed.

## Hawliwch help gyda chostau ysgol: pecynnau cymorth hyrwyddo i ysgolion ac awdurdodau lleol

Deunyddiau hyrwyddo y gellir eu defnyddio i roi gwybod i rieni a gwarcheidwaid am y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer hanfodion ysgol, gan gynnwys prydau ysgol am ddim: **https://bit.ly/48DAV5a**

## Hyfforddiant Llywodraeth Cymru:
## Deall, atal ac ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol ar-lein ymhlith plant a phobl ifanc

**08/02/2024 | 9:30-11:30** **Digwyddiad Arlein** COFRESTRU

Sesiwn hyfforddiant rithiol am ddwy awr, yn rhad ac am ddim ar gyfer ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru. Nod yr hyfforddiant yw helpu ymarferwyr addysg ddeall, atal ac ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol ar-lein ymhlith plant a phobl ifanc.

## Cwricwlwm i Gymru: Digwyddiad Cyfres Tegwch a Chynwysoldeb

**CYMRYD GOFAL A RHANNU!**

**Mae cyfres o weithdai ar y gweill**, sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr i ymarferwyr ar y dulliau y mae eraill yn eu defnyddio i sicrhau bod eu cwricwlwm yn cefnogi tegwch a chynwysoldeb i'w holl ddysgwyr, yn ogystal â rhannu eu profiadau nhw eu hunain. Mae dyddiadau ar gael nawr ar gyfer digwyddiadau ym mis Ionawr a mis Chwefror, a gall ymarferwyr gofrestru gan ddefnyddio'r **ddolen hon**.

## Ymgynghoriad: Strwythur y Flwyddyn Ysgol

**SUT GALLWN NI WNEUD Y FLWYDDYN YSGOL YN FWY CYTBWYS AR GYFER Y GWEITHLU ADDYSG, DYSGWYR, A'U TEULUOEDD?**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud newidiadau i'r flwyddyn ysgol yng Nghymru.

Rhannwch eich sylwadau trwy ymweld â llyw.cymru/flwyddynysgol
Gallwch hefyd ebostio ExploringUseOfSchoolTime@gov.wales

**Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 12/02/2024**

## Weminar: Byddwch yn ddoeth, byddwch yn ddiogel, arhoswch mewn grŵp

**YMGYRCH TOM CHANNON** **20/02/2024 | 15:30-17:00** **Weminar: Digwyddiad Arlein drwy Microsoft Teams**

Bu farw Tom Channon, myfyriwr coleg, yn 2018 ar ôl disgyn tua 70 troedfedd dros wal oedd yn cyrraedd at y pen-glin. Roedd ar wyliau yn dathlu diwedd ei arholiadau Safon Uwch gyda grŵp o ffrindiau. Roedd Tom yn fyfyriwr yng Ngholeg Catholig Dewi Sant, Caerdydd.

Mae'r coleg, mewn cydweithrediad â rhieni Tom, John a Ceri Channon, wedi cynhyrchu rhai adnoddau ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 18 oed i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r angen i baratoi cyn mynd ar wyliau dramor [yn enwedig am y tro cyntaf heb eu teuluoedd] a meithrin dealltwriaeth well am sut i osgoi sefyllfaoedd peryglus a chadw'n ddiogel.

Mae adnoddau ymgyrchu "Byddwch yn ddoeth, byddwch yn ddiogel, arhoswch mewn grŵp" wedi cael eu gosod mewn rhestr chwarae ar Hwb a gall ysgolion a cholegau eu defnyddio mewn astudiaethau bugeiliol a rhaglenni tiwtorial yn y cyfnod cyn gwyliau'r Haf.

Fe'ch gwahoddir i weminar a gynhelir trwy Microsoft Teams ar 20/02/2024 rhwng 15:30 – 17:00. Bydd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad gan rieni Tom, trosolwg byr o'r adnoddau eu hunain a sesiwn gan ysgol a choleg AB sydd wedi defnyddio'r adnoddau mewn sesiynau gyda dysgwyr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn bresennol, anfonwch e-bost at post16quality@llyw.cymru a byddwn yn anfon gwahoddiad calendr atoch ynghyd â'r ddolen Teams.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Cyfoeth Naturiol Cymru: Cylchlythyr Addysg, Dysgu ac Iechyd

Mae Cylchlythyr Addysg, Dysgu ac Iechyd Mis Ionawr, Cyfoeth Naturiol Cymru allan nawr.




## Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol

**PARTNERIAETH RHWNG CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU AC ACADEMI GENEDLAETHOL AR GYFER ARWEINYDDIAETH ADDYSGOL CYMRU**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn falch iawn o lansio cyfle cyffrous i arweinwyr canol/uwch yn yr ysgol. Cymeradwyodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru y cyfle i gefnogi arweinwyr ysgolion i ddatblygu arweinyddiaeth greadigol yn eu hysgol.
**Dyddiad cau ymgeisio yw 12:00pm ar 20/02/2024.** Manylion llawn ar gael yma.

## Plant yng Nghymru: Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

Gwyddom fod 7 allan o bob 25 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn byw mewn tlodi, sy'n effeithio ar eu bywyd pob dydd, eu haddysg a'u cyfleoedd bywyd i'r dyfodol.
Mae'r Canllawiau Pris Tlodi Disgyblion yn gasgliad o ganllawiau am ddim i ysgolion sy'n ystyried sut mae gwneud newidiadau BACH mewn 5 maes allweddol o fywyd yr ysgol (Deall Tlodi; Gwisg Ysgol a Dillad, Bwyd a Bod yn Llwglyd; Cyfranogi ym Mywyd yr Ysgol; y Berthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol) yn gallu gwneud gwahaniaeth MAWR i fywydau dysgwyr a theuluoedd y mae incwm is a'r cynnydd mewn costau byw yn effeithio arnyn nhw. Mae'r canllawiau hyn ar gael hefyd fel set o Ganllawiau i Lywodraethwyr, a gall llywodraethwyr ysgol weld recordiad o weminar ynghylch y canllawiau yma.
Yn ogystal, gall ysgolion gofrestru ar gyfer Rhaglen Taclo Effaith Tlodi ar Addysg er mwyn derbyn adnoddau ychwanegol AM DDIM, gan gynnwys pecyn offer cynhwysfawr a chymorth hyfforddi.
I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'r materion uchod, cysylltwch â pupilpoverty@childreninwales.org.uk.

## Cynllun Doctoriaid Yfory a chynllun newydd Gweithwyr Iechyd Yfory 2024

**MAE FFENESTR YMGEISIO AR GYFER CYNLLUN DOCTORIAID YFORY A CHYNLLUN NEWYDD Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL GWEITHWYR IECHYD YFORY, AR GYFER 2024 BELLACH WEDI AGOR!**

**Cynllun Doctoriaid Yfory**
Mae'r cynllun yn agored ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 sydd am ymgeisio i astudio Meddygaeth yn y brifysgol.

O fod yn rhan o'r cynllun bydd yr aelodau yn derbyn cefnogaeth arbenigol gan staff Ysgolion Meddygol Prifysgol Caerdydd, Abertawe a Bangor. Yn ychwanegol, o sicrhau presenoldeb o 70% ar gyfer yr holl sesiynau, bydd Ysgol Feddygol Prifysgol Caerdydd (yn unig) yn gwarantu cyfweliad.

Gyda chefnogaeth staff y prifysgolion byddwn yn trefnu gweithdai ar ysgrifennu datganiad personol, sicrhau profiad gwaith, cyfweliadau MMI, sgyrsiau gyda meddygon profiadol o amrywiol arbenigeddau yn ogystal â sgyrsiau gyda myfyrwyr meddygol cyfredol. Bydd yr holl gefnogaeth yma yn rhad ac am ddim i'r aelodau a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwblhewch y ffurflen hon i sicrhau lle ar y cynllun. **Dyddiad cau: 23/02/2024**

**Cynllun Gweithwyr Iechyd Yfory**
Eleni am y tro cyntaf byddwn hefyd yn lansio cynllun newydd ar y cyd sef 'Gweithwyr Iechyd Yfory'. Fel Doctoriaid Yfory cynllun ydy 'Gweithwyr Iechyd Yfory' sydd wedi ei anelu at ddisgyblion blwyddyn 12, yn bennaf, sydd am wneud cais i astudio pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn arbennig Bydwreigiaeth, Fferylliaeth, Therapi Iaith a Lleferydd a Ffisiotherapi. Bydd y cynllun yma hefyd yn cynnig cefnogaeth arbennigol gyda'r broses ymgeisio a bydd yr aelodau yn derbyn cefnogaeth arbenigol gan staff Prifysgolion Caerdydd/Abertawe/Bangor/Wrecsam, yn ogystal â myfyrwyr cyfredol. Bydd yr holl gefnogaeth yma yn rhad ac am ddim i'r aelodau a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwblhewch y ffurflen hon i sicrhau lle ar y cynllun. **Dyddiad cau: 23/02/2024**

## Digwyddiadau gan Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru

### TRAFOD ADDYSGEG: MEDDWL AM ARWEINYDDIAETH: SGWRS FEIRNIADOL

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

*Dyddiadau a lleoliadau newydd - Wyneb yn Wyneb mewn lleoliadau Rhanbartho

08/02/2024 | 13:30-15:30 Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [CH7 1XP] **Cyfrwng Saesneg** COFRESTRU

09/02/2024 | 10:00-12:30 Swyddfa GwE, Penrallt, Caernarfon [LL55 1BN] **Cyfrwng Cymraeg** COFRESTRU

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu gan arweinwyr ar gyfer arweinwyr ac mae wedi'i gynllunio i gefnogi penderfyniadau a sgyrsiau arweinwyr ynghylch sut mae ein dealltwriaeth o ymarfer addysgeg yn newid mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r digwyddiad wedi'i gynllunio ar gyfer Uwch Arweinwyr Dysgu ac Addysgu sy'n ceisio cynnal momentwm a chydweithio i ddatblygu addysgeg a dilyniant sy'n cefnogi'r pedwar diben craidd, y sgiliau cyfannol ac effeithiolrwydd dysgwyr, trwy arweinyddiaeth strategol addysgeg.

Mae'r digwyddiadau hyn yn gydweithrediad rhwng yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac Arweinwyr Addysgeg y Consortia Rhanbarthol.

### ARCHWILIO RECRIWTIO A CHADW UWCH ARWEINWYR YSGOLION YNG NGHYMRU

**21/02/2024 | 09:30-11:00** **Digwyddiad Arlein** COFRESTRU

Mae rôl arweinydd ysgol yn hanfodol i lywio'r amgylchedd addysgol a dylanwadu ar lwyddiant cyffredinol ysgol. Mae arweinwyr ysgol effeithiol yn ysbrydoli ac ysgogi athrawon a myfyrwyr, gan greu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol a meithrin diwylliant ysgol gadarnhaol a chynhwysol. Fodd bynnag, mae cynnal y cyflenwad o arweinwyr ysgol yng Nghymru yn heriol.

Ymunwch â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru ar gyfer digwyddiad lansio papur newydd Cyfres Mewnwelediad, Recriwtio a Chadw Uwch Arweinwyr Ysgolion yng Nghymru. Bydd y digwyddiad trafod yn cynnwys cyfraniadau gan Benaethiaid, Llywodraeth Cymru a chydweithwyr o'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR).

## Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

**Cliciwch yma** i ddarllen yr wybodaeth ddiweddaraf gan 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'.

## Carlam Cymru 2023-2024: E-sgol

Mae Fideos Adolygu Carlam Cymru yn adnoddau gwych i ysgolion. Ewch ar eu **gwefan** i chwilio am y fideos Adolygu newydd ar gyfer cyrsiau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch sy'n dod allan yr wythnos hon.

Hefyd, cafodd fideos TGAU newydd eu creu y tymor diwethaf – perffaith i fyfyrwyr sy'n sefyll arholiadau yn ystod mis Ionawr yn ogystal â'r rheiny sy'n meddwl ymlaen at yr Haf.

Ar ben hynny, cynhelir Sesiynau Lles byw yn ystod mis Chwefror-Mawrth, a bydd fideos ar Sgiliau Adolygu ar gael ar eu gwefan erbyn dechrau gwyliau'r Pasg. **Manylion pellach ar gael yma**.